OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adolygiadau o benderfyniadau a wneir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") o dan adrannau 45 a 78 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud cais am adolygiad o benderfyniad.

Mae rheoliad 5 yn pennu'r argymhellion y caniateir eu gwneud gan yr adolygydd penderfyniadau a'r seiliau dros yr argymhellion hynny.

Mae rheoliadau 6, 7 ac 8 yn ymdrin â phwerau a dyletswyddau'r adolygydd penderfyniadau, y ceisydd a'r Comisiwn yn ystod y broses adolygu.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymateb i argymhelliad gan yr adolygydd penderfyniadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

DRAFT

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

DRAFFT

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 79(3) a (4), a 143(2)(a) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar XXXX.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr adolygydd penderfyniadau" ("*the decision reviewer*") yw'r person neu'r panel o bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 79(1) o Ddeddf 2022;

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;

ystyr "Deddf 2022" ("*the 2022 Act*") yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022;

ystyr "y partïon" ("*the parties*") yw'r ceisydd a'r Comisiwn.

(**1**) 2022 dsc 1.

**Gwneud cais am adolygiad o benderfyniad**

**3.** At ddibenion adrannau 45 a 78 o Ddeddf 2022, rhaid gwneud cais i'r adolygydd penderfyniadau—

(a) yn ysgrifenedig, a

(b) o fewn 40 o ddiwrnodau i'r dyddiad yr hysbysir y ceisydd am y penderfyniad.

**4.** Rhaid i gais bennu'r seiliau y ceisir adolygiad arnynt a rhaid iddo gynnwys—

(a) copi o'r penderfyniad sydd i'w adolygu, gan gynnwys unrhyw resymau dros y penderfyniad a roddir gan y Comisiwn, a

(b) unrhyw wybodaeth ategol y mae'r ceisydd yn dymuno i'r adolygydd penderfyniadau ei hystyried.

**Argymhellion gan yr adolygydd penderfyniadau**

**5.** Caiff yr adolygydd penderfyniadau argymell—

(a) na ddylai'r Comisiwn gymryd unrhyw gamau gweithredu, pan na fo'r adolygydd penderfyniadau yn canfod unrhyw reswm, neu pan na fo'n canfod rheswm digonol, i'r Comisiwn ailystyried y penderfyniad, neu

(b) y dylai'r Comisiwn ailystyried ei benderfyniad, pan—

(i) bo'r Comisiwn wedi methu â chydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol,

(ii) bo'r ceisydd wedi darparu gwybodaeth newydd,

(iii) bo'r adolygydd penderfyniadau yn canfod nad yw'r Comisiwn wedi ystyried unrhyw un neu ragor o ffeithiau perthnasol, neu

(iv) bo'r adolygydd penderfyniadau yn ystyried bod y penderfyniad yn anghymesur.

**Y weithdrefn adolygu penderfyniadau**

**6.** Ar ôl cael cais, rhaid i'r adolygydd penderfyniadau—

(a) anfon copi o'r cais ac unrhyw wybodaeth ategol i'r Comisiwn, a

(b) dweud wrth y partïon pa mor hir y mae'r adolygydd penderfyniadau yn credu y bydd yr adolygiad yn ei gymryd.

**7.**—(1) Caiff yr adolygydd penderfyniadau—

(a) gofyn am wybodaeth ychwanegol gan y partïon, a

DRAFFT

(b) gwahodd y partïon i gyflwyno sylwadau pellach mewn ymateb i unrhyw wybodaeth ychwanegol.

(2) Rhaid i'r partïon ymateb i unrhyw gais am wybodaeth ychwanegol o fewn 28 o ddiwrnodau i'r cais ddod i law.

(3) Os yw'r adolygydd penderfyniadau yn gofyn am wybodaeth neu sylwadau ychwanegol gan barti, rhaid iddo anfon copi o'r canlynol at y parti arall—

(a) unrhyw gais am wybodaeth neu sylwadau ychwanegol, a

(b) unrhyw wybodaeth neu sylwadau ychwanegol a ddarperir.

**8.** Rhaid i'r adolygydd penderfyniadau lunio argymhelliad ysgrifenedig a'i anfon at y partïon.

**Dyletswyddau'r Comisiwn ar ôl adolygiad o benderfyniad**

**9.** Ar ôl cael argymhelliad gan yr adolygydd penderfyniadau, rhaid i'r Comisiwn—

(a) ailystyried ei benderfyniad, os argymhellir gwneud hynny, a

(b) hysbysu'r ceisydd am ganlyniad ei ailystyriaeth, gan gynnwys ei resymau, o fewn 40 o ddiwrnodau i'r argymhelliad ddod i law.

*Enw*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

DRAFFT